# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 8 Gorffennaf 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion

(211)

**Cwestiwn Brys**
Dechreuodd yr eitem am 13.30

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ymadawiad y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd o'r Cabinet?

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.38

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 2, 4 i 10 a 12 i 15. Ni ofynwyd cwestiwn 3. Tynnwyd cwestiwn 11 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.25

### 3 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Cyflwyno Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 14.46

**4 Datganiad gan y Prif Weinidog: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Comisiwn Williams**

Dechreuodd yr eitem am 15.43

**5 Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Y Papur Gwyn Llywodraeth Leol**

Dechreuodd yr eitem am 16.27

**6 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 (darparwyd gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth)**

Dechreuodd yr eitem am 17.10

**7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd**

Dechreuodd yr eitem am 17.42
**NNDM5549 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd sy'n cyflwyno gofyniad i gael caniatâd yr Uchel Lys cyn y ceir herio dilysrwydd amrywiol orchmynion, camau, cynlluniau a dogfennau strategol eraill sy'n ymwneud â chynllunio, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**8 Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Bwyd o Brydain) 2014**

The item started at 17.43

NNDM5550 Alun Davies (Blaenau Gwent)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, a Rheol Sefydlog 30A.10, i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Bwyd o Brydain) 2014, yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mai 2014.

**Derbyniwyd y cynnig y unol â Rheol Sefydlog 12.36**

## 9 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo’r Bil Tai (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.44
**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**
Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Weinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Tai (Cymru).

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 12 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd yr eitem am 18.01

Daeth y cyfarfod i ben am 18.01

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 9 Gorffennaf 2014**